EDUCATION WORKFORCE COUNCIL
CYNGOR Y GWEITHLU ADDYSG

**COFNODION PEDWERYDD CYFARFOD A DEUGAIN**
**CYNGOR Y GWEITHLU ADDYSG**

**DYDDIAD: 9 Gorffennaf 2026**

**LLEOLIAD: Gwesty Holland House**

**Yn bresennol:**
**Aelodau:**

| | |
|---|---|
| Geraint Williams (*Cadeirydd*) | Theresa Evans-Rickards |
| David Williams | Kelly Edwards |
| Gwawr Taylor | Matthew Owens |
| Anwen Foy | |

**Ymddiheuriadau:**
Jane Jenkins, Nicola Stubbins, David Edwards, Karl Jones, Kathryn Robson

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Lisa Winstone | Prif Weithredwr |
| David Browne | Cyfarwyddwr Rheoleiddio |
| Bethan Stacey | Cyfarwyddwr Datblygiad Proffesiynol, Achredu a Pholisi |
| Christine Hellings | Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol |
| Louise Deeley | Swyddog Llywodraethu Corfforaethol *(cofnodion)* |
| Ben Lester | Rheolwr Polisi a Chynllunio *(arsylwi)* |
| Angela Guarno | Cynorthwyydd Gweithredol i'r Prif Weithredwr (*arsylwi*) |
| Amy Pope | Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol (*arsylwi*) |

## 1. Croeso a materion rhagarweiniol

1.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau a swyddogion i bedwerydd cyfarfod a deugain Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA). Croesawodd ef Anwen Foy a Matthew Owen i'w cyfarfod Cyngor cyntaf, y cyfieithydd ar y pryd ac arsylwyr CGA. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Jane Jenkins, Nicola Stubbins, David Edwards, Karl Jones a Kathryn Robson.

1.2 Atgoffwyd aelodau y byddai sesiwn gynllunio a chyfarfod wyneb yn wyneb nesaf y Cyngor yn cael eu cynnal yn swyddfeydd CGA am 10:00 ar 19 Tachwedd 2026.

## 2. Datganiadau Buddiannau

2.1 Datganodd Kelly Edwards Fuddiant yn gysylltiedig â'i rôl yn ColegauCymru.

**3. Gohebiaeth ac adroddiad y Cadeirydd**

3.1 Nododd y Cadeirydd y byddai'r adroddiad yn cael ei roi yn y sesiwn breifat.

**4. Cofnodion drafft cyfarfod y Cyngor ar 19 Mawrth 2026**

4.1 Cyflwynodd y Cadeirydd gofnodion drafft gyfarfod y Cyngor ar 19 Mawrth 2026. Gofynnodd i'r aelodau gymeradwyo'r cofnodion yn gofnod cywir o drafodaethau.

4.2 Nid oedd unrhyw faterion yn codi a chadarnhaodd y Cyngor y cofnodion.

**5. Cael gwybod am unrhyw faterion y mae'r aelodau'n dymuno eu codi yn gysylltiedig â'r eitemau agenda 'er gwybodaeth'**

5.1 Ni roddwyd gwybod am unrhyw faterion.

**6. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Gweithredol ar 19 Mai 2026**

6.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr gofnodion y Pwyllgor Gweithredol a rhoddodd wybod nad oedd unrhyw faterion yn codi i'w tynnu i sylw'r aelodau na fyddent yn cael eu trafod ar agenda'r Cyngor.

6.2 Ni chododd yr aelodau unrhyw ymholiadau.

**7. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio ar 9 Mehefin 2026**

7.1 Cyflwynodd David Williams *(Cadeirydd Dros Dro y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio)* y cofnodion a rhoddodd wybod nad oedd unrhyw faterion yn codi i'w tynnu i sylw'r aelodau na fyddent yn cael eu trafod ar agenda'r Cyngor.

7.2 Ni chododd yr aelodau unrhyw ymholiadau.

**8. Adroddiad gan y Prif Weithredwr** **CGA 19/26**

8.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad yn rhoi diweddariad i'r Cyngor ar amrywiaeth o faterion nad ydynt yn cael sylw mewn man arall ar yr agenda, gan wahodd sylwadau ac ymholiadau'r aelodau.

8.2 Rhoddwyd gwybod i aelodau fod dwy rôl ar y Cyngor yn wag o hyd. Yn dilyn trafodaethau gyda'r Cadeirydd, cytunwyd i beidio â chynnal ymgyrch recriwtio ar wahân ar hyn o bryd. Yn hytrach, byddai'r rolau'n cael eu hystyried ochr yn ochr â'r rhaglen ehangach o benodiadau i'r Cyngor a fyddai'n digwydd yn 2027.

8.3 Roedd y Cadeirydd wedi cysylltu ag aelodau cymwys ynghylch eu teimladau am ymgymryd ag ail dymor fel aelod o'r Cyngor. Byddai hyn yn cael ei gynnwys fel rhan o'r trafodaethau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru dros yr haf ynghylch penodiadau i'r Cyngor.

8.4 Estynnwyd gwahoddiad i Weinidog y Cabinet dros Addysg, Anna Brychan AS, ddod i gyfarfod y Cyngor ym mis Tachwedd ac roeddem yn aros am ateb.

8.5 Roedd Dosbarth Meistr CGA, a gyflwynwyd gan Jon Bockelmann-Evans ar 13 Mai 2026 ac a ganolbwyntiodd ar iechyd a lles emosiynol, wedi ennyn adborth cadarnhaol. Roedd digwyddiad blynyddol Siarad yn Broffesiynol wedi cael ei drefnu ar gyfer 21 Hydref 2026, gyda Chomisiynydd Plant Cymru wedi'i chadarnhau'n siaradwr gwadd.

8.6 Nid oedd gan aelodau unrhyw gwestiynau ac roeddent yn fodlon derbyn y diweddariad.

**9. Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Drafft 2025-2026 CGA 20/26**

9.1 Cyflwynodd Christine Hellings *(Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol)* yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26. Roedd y rhain wedi'u cyflwyno a'u hargymell i'r Cyngor eu cymeradwyo yn y Pwyllgor Archwilio a Chraffu ar 2 Gorffennaf 2026.

9.2 Rhoddwyd gwybod i aelodau am gywiriadau a nodwyd yn ystod y broses archwilio. Cytunwyd ar yr holl addasiadau a'u hymgorffori yn y cyfrifon terfynol.

9.3 Diolchodd y Prif Weithredwr i'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, y Rheolwr Cyllid a'r tîm staff ehangach am eu gwaith trwy gydol proses archwilio a fu'n arbennig o heriol, gan fynnu sylw sylweddol gan swyddogion ar draws y sefydliad.

9.4 Myfyriodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Chraffu ar drafodaethau a gynhaliwyd yng nghyfarfod diweddar y Pwyllgor ynghylch y naratif o fewn y cyfrifon am gymorthdaliadau ffioedd cofrestru a chynaliadwyedd trefniadau ariannu. Er bod pryderon ynghylch cynaliadwyedd hirdymor wedi'u trafod, nododd aelodau fod y sefyllfa yn yr adroddiad yn gywir ar y dyddiad adrodd a'i fod yn adlewyrchu trafodaethau parhaus gyda Llywodraeth Cymru yn briodol.

9.5 Cydnabu aelodau'r ymgysylltu gwell â Llywodraeth Cymru a'r cynnydd cadarnhaol yr oedd yn cael ei wneud ynghylch trefniadau cyllido yn y dyfodol.

9.6 Fe wnaeth y Cadeirydd longyfarch swyddogion am ganlyniad rhagorol yr archwiliad.

9.7 Nid oedd gan aelodau unrhyw sylwadau pellach ac roeddent yn fodlon cymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2025-26.

**10. Adroddiad Blynyddol Drafft ar Gydraddoldeb 2025-26 ac Adroddiad Blynyddol Drafft Monitro Safonau'r Gymraeg 2025-26 CGA 21/26**

10.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y papurau i aelodau, yn darparu adroddiadau blynyddol drafft ar Gydraddoldeb, a Safonau'r Gymraeg. Nodwyd bod yr adroddiadau (Atodiad A a B) wedi cael eu cyflwyno a'u hargymell i'r Cyngor eu cymeradwyo yn dilyn y Pwyllgor Gweithredol ar 19 Mai 2026.

10.2 Holodd un aelod ynghylch camau gweithredu a oedd yn deillio o adolygiad o arferion recriwtio, y cyfeiriwyd ato o fewn yr adroddiad.

10.3 Nodwyd bod newidiadau sylweddol wedi'u gwneud i ddogfennaeth a phrosesau recriwtio ac y byddai effaith y newidiadau hynny'n parhau i gael eu monitro a'u hadolygu.

10.4 Croesawodd aelodau'r wybodaeth am amrywiaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad a cheisiont eglurhad ynghylch gwella amrywiaeth y gweithlu.

10.5 Cadarnhaodd swyddogion fod gwella amrywiaeth yn faes ffocws gweithgar o hyd, gan gynnwys ystyried dulliau recriwtio a llwybrau hysbysebu i ddenu amrediad ehangach o ymgeiswyr. Nododd aelodau heriau mesur newid o fewn gweithlu cymharol fach.

10.6 Holodd un aelod am lefelau sgiliau Cymraeg a chynlluniau ar gyfer eu gwreiddio yn y gweithlu.

10.7 Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Datblygiad Proffesiynol, Achredu a Pholisi at fframwaith CEFR, y byddai staff yn alinio ag ef o fis Medi ymlaen.

10.8 Nid oedd gan aelodau unrhyw ymholiadau pellach ac roeddent yn fodlon cymeradwyo'r adroddiadau.

**11. Adolygiad o'r Gofrestr Risg CGA 22/26**

11.1 Cyflwynodd Christine Hellings grynodeb i aelodau o'r Gofrestr Risg bresennol a'r parodrwydd cyffredinol i dderbyn risg ar gyfer adolygiad blynyddol.

11.2 Ar y cyfan, aseswyd mai amharod i dderbyn risg yr oedd y Cyngor o ran parodrwydd, fel yr oedd yn 2024-25.

11.3 Rhoddwyd gwybod i aelodau fod risg newydd wedi'i hychwanegu yn gysylltiedig â threfniadau rhannu gwybodaeth y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Ceisiwyd cyngor arbenigol priodol ac roedd gwaith yn mynd rhagddo i reoli'r risg.

11.4 Nododd aelodau fod gweithdy ar reoli risg yn gynhwysfawr wedi'i drefnu i'w gynnal yn hwyrach ym mis Gorffennaf 2026. Byddai'r broses yn adolygu risgiau'r sefydliad o'r egwyddorion cyntaf ac yn ystyried y gwahaniaeth rhwng risgiau sefydliadol a phroblemau. Byddai fersiwn wedi'i diweddaru o'r gofrestr risg yn cael ei hystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Chraffu ym mis Medi. Gofynnodd aelodau i hon hefyd gael ei chyflwyno i'r Cyngor er gwybodaeth ym mis Tachwedd.

11.5 Trafododd aelodau brosiect y Gronfa Ddata Cofrestru ac ystyriaethau seiberddiogelwch cysylltiedig. Cadarnhaodd swyddogion y byddai'r system newydd yn cynnig platfform mwy diogel a chynaliadwy na'r trefniadau presennol a'u bod yn hyderus o hyd yn yr amserlen weithredu.

11.6 Trafododd yr aelodau'r proffil risg sefydliadol cyffredinol a'r parodrwydd i dderbyn risg ac roeddent yn fodlon bod y dull presennol yn briodol o hyd, wrth aros am yr adolygiad ehangach.

11.7 Nid oedd gan aelodau ymholiadau pellach ac roeddent yn fodlon cymeradwyo'r adolygiad a'r parodrwydd presennol i dderbyn risg.

**12. Adroddiad cynnydd SAC, Cofrestru a Sefydlu** **CGA 23/26**

12.1 Cyflwynodd David Browne *(Cyfarwyddwr Rheoleiddio)* yr adroddiad cynnydd hwn a roddodd ddiweddariad i aelodau ar waith CGA yn gysylltiedig â gwaith Statws Athro Cymwysedig (SAC), Cofrestru a Sefydlu.

12.2 Nododd aelodau fod 15,320 o ymarferwyr wedi cael eu datgofrestru fel rhan o'r broses flynyddol, yn gyson â'r llynedd. Yn wreiddiol, roedd y broses diffyg cydymffurfio wedi amlygu 348 o ymarferwyr, gyda'r nifer eisoes wedi'i gostwng i 153, ac roedd disgwyl iddi ostwng yn sylweddol dros y pythefnos nesaf.

12.3 Nodwyd bod cymhlethdod cynyddol mewn llwybrau at Statws Athro Cymwysedig (SAC) yn Lloegr yn cynnig heriau o ran asesu cywerthedd â gofynion Cymru, a bod trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru yn mynd rhagddynt.

12.4 Nododd aelodau fod Ystadegau Blynyddol y Gweithlu Addysg ar gyfer 2026 i'w cyhoeddi erbyn diwedd mis Gorffennaf.

12.5 Nid oedd gan aelodau unrhyw ymholiadau ac roeddent yn fodlon derbyn yr adroddiad cynnydd.

**13. Uwchraddio Cronfa Ddata Cofrestru CGA** **CGA 24/26**

13.1 Rhoddodd David Browne ddiweddariad ar gynnydd hyd yma ar y prosiect a gymeradwywyd gan y Cyngor i uwchraddio system cronfa ddata CGA.

13.2 Rhoddwyd gwybod i aelodau fod ClearCourse wedi cynnig dyddiad cyflwyno diwygiedig, sef 7 Medi 2026, oherwydd problemau a nodwyd yn ystod Profion Derbynioldeb i'r Defnyddiwr. Yn sgil cyflwyno ar 7 Medi, nodwyd na fyddai'n ymarferol yn weithredol i CGA symud i'r cam byw tan hanner tymor mis Hydref.

13.3 O ran ymholiad ynghylch y tebygolrwydd y byddai oedi pellach, rhoddodd y Prif Weithredwr sicrwydd i aelodau fod CGA wedi mabwysiadu safbwynt pendant tuag at gerrig milltir cytundebol a thaliadau, ac na fyddai'r un taliad pellach yn cael ei wneud hyd nes bod deilliannau cytunedig wedi'u cwblhau'n llawn.

13.4 Yn sgil ymholiad am seiberddiogelwch, nodwyd y byddai CGA yn gallu gwneud cais am achrediad Cyber Essentials Plus pan fyddai'r gronfa ddata newydd wedi'i rhoi ar waith.

13.5 Nid oedd gan aelodau unrhyw ymholiadau pellach ac roeddent yn fodlon derbyn y diweddariad.

**14. Adroddiad Cynnydd Priodoldeb i Ymarfer CGA** **CGA 25/26**

14.1 Cyflwynodd David Browne yr adroddiad cynnydd hwn ar waith Priodoldeb i Ymarfer y Cyngor a materion gweithdrefnol cysylltiedig.

14.2 Rhoddwyd gwybod i aelodau fod proses gaffael ar gyfer gwasanaethau Swyddog Cyflwyno wedi'i chwblhau'n llwyddiannus, gan sicrhau parhad y ddarpariaeth bresennol o dan gontract newydd tan 2029, gydag opsiwn i'w ymestyn am flwyddyn arall.

14.3 Nododd aelodau fod yr hyfforddiant adnewyddu wyneb yn wyneb blynyddol i aelodau a chadeiryddion panel, a drefnwyd ar gyfer 25-26 Mehefin 2026, wedi'i ohirio tan yr hydref oherwydd y rhybudd am dywydd eithafol a oedd ar waith ar y pryd.

14.4 O ran ymholiad ynghylch y nifer isel o atgyfeiriadau gan rai awdurdodau, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Rheoleiddio y byddai'r niferoedd yn cael eu hadolygu dros yr haf a byddai cyfarfodydd ag awdurdodau perthnasol yn cael eu trefnu, pe bai angen.

14.5 Nododd y Prif Weithredwr fod Grŵp Cyfarwyddwyr Adnoddau Dynol Awdurdodau Lleol wedi cysylltu â CGA er mwyn cael cymorth a gwybodaeth bellach ynghylch priodoldeb i ymarfer. Byddai'r Cyfarwyddwr Rheoleiddio yn mynd i gyfarfodydd y grŵp yn y dyfodol i gynorthwyo â hyn.

14.6 Nid oedd gan aelodau unrhyw ymholiadau pellach ac roeddent yn fodlon derbyn yr adroddiad cynnydd.

**15. Adroddiad Blynyddol Drafft Priodoldeb i Ymarfer CGA 26/26**

15.1 Gofynnodd David Browne i aelodau ystyried yr Adroddiad Blynyddol Drafft Priodoldeb i Ymarfer, y cafodd ei gyflwyno a'i gymeradwyo yn y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio ar 19 Mai 2026.

15.2 Nid oedd gan aelodau unrhyw sylwadau ac roeddent yn fodlon cymeradwyo'r adroddiad i'w gyhoeddi.

**16. Opsiynau i CGA er mwyn cyflawni ei rôl statudol i ddarparu cyngor CGA 27/26**

16.1 Cyflwynodd Bethan Stacey *(Cyfarwyddwr Datblygiad Proffesiynol, Achredu a Pholisi)* y papur a roddodd opsiynau ynghylch ymagwedd CGA at gyflawni ei swyddogaeth statudol i ddarparu cyngor.

16.2 Nododd aelodau'r ymrwymiad parhaus i ddatblygu materion perthnasol o ddiddordeb ac ymgymryd ag ymchwil i ddulliau eraill o gyflwyno cyngor.

16.3 O ran ymholiad a godwyd ynghylch p'un a fyddai cyngor wedi'i seilio ar dystiolaeth a bod argymhellion dilynol yn cael eu gwneud, ymatebodd y Cyfarwyddwr Datblygiad Proffesiynol, Achredu a Pholisi i gadarnhau y byddai'r cyngor wedi'i seilio ar dystiolaeth. Gallai argymhellion ddeillio o hyn, ond byddai'n dibynnu ar natur y cyngor a roddwyd.

16.4 Gyda Llywodraeth newydd yn ei lle, cydnabuwyd cyfle i ddatblygu perthnasoedd a meithrin ymddiriedaeth ynghylch rôl CGA ac amgyffrediad y cyhoedd, gydag ymagwedd ddatblygiadol gynyddol yn cael ei hannog gan Aelodau.

16.5 Nid oedd gan aelodau unrhyw sylwadau nac ymholiadau pellach ac roeddent yn fodlon derbyn y diweddariad.

**17. Achredu Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) CGA 28/26**

17.1 Cyflwynodd Bethan Stacey *(Cyfarwyddwr Datblygiad Proffesiynol, Achredu a Pholisi)* y papur hwn a roddodd ddiweddariad cynnydd i aelodau ynghylch rôl statudol CGA i achredu rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) yng Nghymru.

17.2 Roedd trafodaethau cychwynnol wedi'u cynnal gyda Phrifysgol Wrecsam ynghylch eu mynegiant o ddiddordeb mewn darparu AGA yng Nghymru.

17.3 Yn sgil cwblhau'r cylch achredu, monitro ac ailachredu cychwynnol, gwnaed cynnydd da ar adroddiad drafft ar y ddarpariaeth AGA yng Nghymru. Byddai penderfyniadau ynghylch cyhoeddi'r adroddiad, gan gynnwys graddfa a fformat y cyhoeddiad, yn cael eu gwneud ar ôl ei gwblhau.

17.4 Roedd Llywodraeth Cymru wedi dechrau gwaith ar adnewyddu meini prawf AGA ac roedd disgwyl fersiwn ddrafft yn ystod yr haf, a disgwyl ymgynghoriad ffurfiol ar y meini prawf drafft yn ystod tymor yr hydref.

17.5 Nododd aelodau gyflawni Memorandwm Dealltwriaeth newydd rhwng CGA ac Estyn, a roddodd fframwaith i'r ddau sefydliad gydweithio yn gysylltiedig â'u rôl ym maes AGA.

17.6 Nid oedd gan aelodau unrhyw sylwadau pellach ac roeddent yn fodlon derbyn y diweddariad.

**18. Adolygiad o'r Cyngor a Thrafodaeth ar Ddiwrnod Hyfforddiant Blynyddol yr Aelodau CGA 29/26**

18.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr aelodau i'r adroddiad hwn, a oedd yn crynhoi ymatebion o broses adolygu'r Cyngor (Atodiad A). Nodwyd sgorau da a sylwadau cadarnhaol.

18.2 Nodwyd diwrnod sefydlu blynyddol ar 21 Ebrill 2027 i ddarparu ar gyfer aelodau cyngor newydd eu penodi, gan annog pob aelod a oedd yn parhau yn eu rôl i fynychu.

18.3 Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am y sgyrsiau adeiladol a gynhaliwyd yn ystod y broses adolygu.

18.4 Ni chafwyd unrhyw sylwadau ac roedd yr aelodau yn fodlon derbyn y papur.

**19 - 25. Eitem(au) gwybodaeth**

Cafodd aelodau bapurau "er gwybodaeth" ar:

- **Adolygiad chwarterol, 1 Ionawr – 31 Mawrth 2026 (CGA 30/26)**
- **Adolygiad o Flwyddyn y Pwyllgor Archwilio a Chraffu 2025-26 (CGA 31/26)**
- **Y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru (CGA 32/26)**
- **Sefydlu Statudol a'r Pasbort Dysgu Proffesiynol (CGA 33/26)**
- **Hyrwyddo Gyrfaoedd mewn Addysg (CGA 34/26)**
- **Ysgrifenyddiaeth i Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (CACAC) (CGA 35/26)**
- **Calendr dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol 2027-29 (CGA 36/26)**

**26. Unrhyw fater arall**

26.1 Ni chodwyd unrhyw fater arall a daeth y cyfarfod cyhoeddus i ben.

***Gofynnwyd i arsylwyr adael cyn i'r Cyngor symud i'r sesiwn breifat.***